

Bwletin Rheoli Adnoddau Naturiol

Natural Resource Management Bulletin



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rhifyn 15 – Medi 2014

Y Gronfa Natur

Pan gyhoeddasom y Gronfa Natur, gwnaethom gadarnhau y byddai arian yn cael ei ddyrannu i brosiectau llwyddiannus ar sail “y cyntaf i’r felin gaiff falu”. Rydym wedi cael ymateb cadarnhaol iawn gan arwain at 62 o gynigion ffurfiol ac rydym felly’n cau’r Gronfa i ragor o geisiadau. Byddwn yn gwneud cyhoeddiad yn fuan ynglŷn â’r prosiectau llwyddiannus.

Byddwn yn parhau i weithio gyda’r prosiectau sy’n cael eu datblygu a chyda prosiectau aflwyddiannus i gynnig cyngor ar y camau nesaf a ffynonellau arian posibl er mwyn sicrhau nad yw’r gwaith a wnaethpwyd hyd yn hyn yn cael ei golli.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar NaturalResourceManagement@wales.gsi.gov.uk

Meysydd eraill o ddiddordeb

Cynllun Adfer Natur

Mae Cynllun Adfer Natur, yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru’n bwriadu mynd ati i atal a gwyrddroi’r dirywiad yn ein bioamrywiaeth.

Y llynedd, roedd Adroddiad Sefyllfa Byd Natur yn datgan bod llawer o gynefinoedd a rhywogaethau Cymru’n edwino a diflannu oherwydd yr arferion ffermio modern, llygredd, y newid yn yr hinsawdd a phlanhigion ymledol fel Clymog Siapan. Mae’r dirywiad hwn mewn bioamrywiaeth wedi gwanhau’r amgylchedd a’i wneud yn llai abl i addasu i newid.

Mae’r cynllun arfaethedig yn gosod targedau uchelgeisiol ac yn rhoi manylion am y camau gweithredu strategol sy’n angenrheidiol i gyrraedd y targedau hynny; mae’n gofyn hefyd sut gall Llywodraeth Cymru helpu i adfer ein hamgylchedd naturiol er mwyn iddo ffynnu.

Bydd y cyfnod ymgynghori’n cau 3 Rhagfyr 2014 a chaiff y Cynllun Adfer Natur terfynol ei lansio’r flwyddyn nesaf: [Cynllun Adfer Natur](#).

Paratoi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: Y diweddraf a chyfle i gymryd rhan

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres o ymarferion ymgynghori ac adborth ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru fel rhan o broses ymgysylltu barhaus ar system gynllunio morol newydd. Dysgwch ragor am yr hyn rydym yn ei wneud a pham yn ein hanimeiddiad byr. Y nod yw rhoi system gynllunio morol genedlaethol ar waith erbyn 2015 a hoffem gael eich adborth parhaus trwy gyfres o ddiweddariadau drwy Wefan Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r trefniadau hyn, yn ddiweddar fe wnaethom gyhoeddi Porth Cynllunio Morol Drafft, yr Ymarfer Cwmpasu Strategol Drafft a'r Cwmpas Drafft, y Weledigaeth Ddrafft a'r Amcanion cysylltiedig (gan gynnwys cwestiynau ar y Cwmpas Drafft ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) fel y gallwch wneud sylwadau amdanynt: [Cynllunio Morol: Y Newyddion Diweddraf](#), [Datblygu Cynllun Morol Cymru](#), [Fideo Cynllunio Morol](#).

Gwahoddiad i ffermwyr organig yng Nghymru wneud cais am gymorth gan Lywodraeth Cymru

Gall ffermwyr organig yng Nghymru wneud cais am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru o 1 Hydref – 29 Hydref yn rhan o gylch ceisiadau cyntaf Glastir Organig. Bydd contractau'n dechrau ar 1 Ionawr 2015.

Mae Glastir Organig yn elfen o Gynllun Glastir Llywodraeth Cymru. Mae Glastir Organig yn rhoi cymorth i ffermwyr a chynhyrchwyr organig sy'n rheoli tir yn bositif yn amgylcheddol.

Mae Glastir Organig yn contract 5 mlynedd gyda Llywodraeth Cymru, ac mae ar gael i'r rheini sy'n dymuno trawsnewid i gynhyrchu organig, ac i gynhyrchwyr organig presennol sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

Yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gymru ddigidol, datblygwyd proses gwneud cais Glastir Organig ar-lein, ac mae ar gael trwy wasanaeth Ar-lein Taliadau Gwledig Cymru.

Bydd canllawiau ar gyfer llenwi'ch cais Glastir Organig ar-lein ar gael o 1 Hydref yn [Llywodraeth Cymru | Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein](#). Os nad oes mynediad at fand eang gennych neu os oes angen cymorth pellach arnoch, dylech gysylltu â'r Ganolfan Gyswilt Cwsmeriaid cyn gynted â phosib ar 0300 062 5004 er mwyn trafod cymorth ddigidol a ffyrdd eraill o wneud cais.

Mae manylion llawn am gymhwysedd, y broses ddethol a chyfraddau tâl ar gael yn y llyfryn Rheolau Glastir Organig. Bydd hwn ar gael yn [Llywodraeth Cymru | Glastir](#) o 1 Hydref.

Bil Cynllunio (Cymru) wedi osod

Cafodd Bil Cynllunio (Cymru) ei osod gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol Carl Sargeant ar 6 Hydref 2014.

Mae Bil Cynllunio (Cymru) yn cyflwyno cyfres o newidiadau deddfwriaethol, a hynny ar sail sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr ac ymgynghori eang. Ei nod yw cyflwyno diwygiadau pellgyrhaeddol i'r system gynllunio yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn deg ac yn gadarn a'i bod yn galluogi datblygu. Ar y cyd â newidiadau arfaethedig i is-ddeddfwriaeth, ac i bolisiau a

chanllawiau, bydd y Bil yn helpu i ddarparu'r cartrefi, y swyddi a'r seilwaith y mae eu hangen ar Gymru, gan roi cyfle ar yr un pryd i ddiogelu ac i wella'n hamgylcheddau adeiledig a naturiol pwysicaf ac i gefnogi defnydd o'r Gymraeg.

Am fwy o wybodaeth ynglyn ewch i wefan Llywodraeth Cymru www.cymru.co.uk/cynllunio

Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle (SWMP)

Ar ôl ymgynghori ynghylch y rheoliadau drafft ar gyfer y Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle (SWMP), rydym yn ddiweddar wedi cyhoeddi ein penderfyniad i fabwysiadu SWMP yn god ymarfer gwirfoddol, a gefnogir gan ganllawiau a thempledi arfer gorau. Ar ôl ystyried yr amrywiaeth barn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni cyfraddau gwastraff ac ailgylchu uchel yn yr Arolwg o Wastraff Adeiladu a Dymchwel a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Mehefin 2014), mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chyflwyno rheoliadau sy'n gofyn am SWMP. Er mwyn lleihau ymhellach y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan y sector ac i sicrhau'r manteision a nodwyd yn yr ymgynghoriad (yn enwedig wrth gynllunio i waredu gwastraff yn ystod camau cynnar y broses adeiladu), byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant Adeiladu a Dymchwel i gyhoeddi canllawiau arfer gorau a thempledi SWMP a fydd yn cynorthwyo busnesau i ganolbwyntio ar atal gwastraff, paratoi ar gyfer ail ddefnyddio ac ailgylchu yn eu gwaith. Bydd y templedi SWMP ar gael i fusnesau o bob maint eu defnyddio fel arfer da. Ceir manylion am yr ymarfer ymgynghori a'r ymatebion yn: [Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle](#).

Uwchgynhadledd Adfywio Cymru 2014

Stadiwm Liberty, Abertawe – 23 Hydref 2014

Bydd uwchgynhadledd 2014 yn dilyn y digwyddiad llwyddiannus a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2012. Y prif thema y tro hwn fydd canol trefi yng Nghymru. Bydd yr uwchgynhadledd yn canolbwyntio ar y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a'r fenter Ardaloedd Gwella Busnes. Bydd hefyd yn edrych ar enghreifftiau allweddol o nifer o brosiectau lleol a'r prosiectau sy'n ariannu eu hunain sy'n cael eu cynnal mewn canolfannau trefi ledled Cymru.

Mae'r agenda a'r rhaglen lawn yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd. I fynegi eich diddordeb i dderbyn rhagor o wybodaeth wrth i'r rhaglen ddatblygu, ewch i [wefan Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru](#) (dolen allanol).

Mynnwch yr wybodaeth ddiweddaraf

I ddysgu mwy am y rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol, ewch i: [Rhedi Adnoddau Naturiol](#)

Mae'r tudalennau gwe yn cynnwys [Cwestiynau Cyffredin](#), [pecyn gwybodaeth](#) a rhai [astudiaethau achos](#).

Gallwch hefyd ddysgu am y datblygiadau diweddaraf ar Facebook a Twitter trwy ddilyn @WG_NatResMin a hoffi tudalen Facebook Llywodraeth Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ymuno â'r rhestr bostio, e-bostiwch ni ar naturalresourcemanagement@wales.gsi.gov.uk